Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** IR867

**Dyddiad cyhoeddi:** 06 Ebrill 2023

# Adolygiad o Effeithiolrwydd Bwrdd BIPBC

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 24 Mawrth 2023 yn gofyn am wybodaeth ynghylch datgeliadau a gododd bryderon am y diwylliant ar frig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 12 yn Adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn BIPBC.

Rwyf wedi gwneud ymholiadau gyda'r tîm archwilio perthnasol ac wedi cael fy hysbysu bod gennym rywfaint o wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad yn eich cais.

Fel a grybwyllwyd ym mharagraff 12 yn yr Adroddiad ar Effeithiolrwydd y Bwrdd yn PBC, mae'r ymchwiliad i'r Datgeliadau Chwythu'r Chwiban yn PBC wedi cael ei hwyluso gan Lywodraeth Cymru.

Mae Geraint Evans, Cyn-Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, wedi cael comisiwn i gynnal yr ymchwiliad i'r datgeliadau. Gallai fod o gymorth eich cyfeirio at ymateb Eluned Morgan AS i Gwestiynau Ysgrifenedig, lle ymdrinnir â rhywfaint o'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

Nid yw Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad a'r raddfa amser arfaethedig ar gyfer cwblhau a chyhoeddi canfyddiadau wedi cael eu rhannu gyda ni.

Rwy'n cynghori eich bod yn cyfeirio eich cais at swyddfa Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru yn y lle cyntaf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, cysylltwch â mi'n ddiymdroi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth